Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llys Gwenffrwd**

**CARTREF PRESWYL LLYS GWENFFRWD**
**BRYNFORD STREET**
**TREFFYNNON**
**CH8 7RA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/01/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Llys Gwenffrwd yn gartref gofal preswyl tri llawr wedi'i adeiladu'n bwrpasol yn Nhreffynnon.
Cyngor Sir y Fflint yw'r darparwr cofrestredig, sydd wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu llety a gofal personol i hyd at 30 o oedolion, gan gynnwys pedwar mewn darpariaeth ailalluogi i bobl ag anghenion gofal canolraddol.
Mae'r cwmni wedi penodi Mark Holt fel yr unigolyn cyfrifol. Mae rheolwr wedi'i benodi hefyd, sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae gan y bobl sy'n byw yn y cartref gydberthnasau agos â'r staff a'i gilydd, ac maent yn hapus ac yn cael gofal da. Caiff y bobl eu hannog i fod yn annibynnol ac i gymryd risgiau cadarnhaol, a chaiff hyn ei ategu gan weithdrefnau cadarn a chynlluniau rheoli risg. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr bresenoldeb cadarnhaol a gweithredol yn y cartref, ac mae ganddynt drosolwg clir o gryfderau'r gwasanaeth a'r hyn y gellid ei wella.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau ac maent yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Mae'r cyfathrebu yn effeithiol a chaiff y bobl, y staff a rhanddeiliaid y cyfle i leisio'u barn yn rheolaidd ar beth sy'n mynd yn dda a lle y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r cynlluniau gofal a chymorth yn seiliedig ar ganlyniadau. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith pellach i'r rhain i bennu sut y gellid nodi a mesur cynnydd yn effeithiol yn erbyn y canlyniadau hyn.

### 2. Gwelliannau

Dyma'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers iddo gael ei ailgofrestru'n ffurfiol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar 5 Ebrill 2019. Caiff unrhyw welliannau eu hystyried fel rhan o'r arolygiad nesaf.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth: Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Y datganiad o ddiben: Nid yw'r ddogfen hon yn cynnwys digon o fanylder o ran yr hyn y gall y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ei ddisgwyl a sut y caiff y gwasanaeth ei gynnal.

- Cyfarfodydd goruchwylio'r staff: Roedd rhai aelodau o'r staff yn mynd mwy na thri mis cyn cael cyfarfodydd un i un gyda'u rheolwr llinell.

- Rhoi meddyginiaethau: Mae angen adolygu a gwella'r system sydd ar waith i roi meddyginiaeth gyda'r hwyr.
- Canlyniadau ar gyfer unigolion: Mae angen rhoi systemau ar waith i alluogi pobl i weld y cynnydd y maent yn ei wneud mewn perthynas â'u canlyniadau unigol.

- Diogelwch tân: Dylid cynnal ymarferion gwagio'r adeilad adeg tân yn rheolaidd, gan gynnwys y staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

- Gweithgareddau: Dylai aelodau o'r staff fod yn ystyriol o faterion amgylcheddol, a allai effeithio'n negyddol ar allu'r bobl i gymryd rhan yn y gweithgareddau yn llawn.

## 1. Llesiant

### Ein canfyddiadau

Caiff potensial ac annibyniaeth y bobl eu cefnogi'n dda a chaiff eu hawliau a'u hawliadau unigol eu hamddiffyn yn dda. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, wedi'i adeiladu'n bwrpasol a chaiff y bobl eu cefnogi'n dda gan gynlluniau gofal a chynlluniau rheoli risg, a oedd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac a oedd yn annog y bobl i gymryd risgiau cadarnhaol. Roedd gan y bobl ddewisiadau ac roedd cymorth yn cael ei ddarparu a oedd yn meithrin annibyniaeth ac yn cadw cymhelliant y bobl yn uchel. Roedd y bobl yn cael eu gwahodd i fynegi eu sylwadau a'u pryderon, ac roedd y gwasanaeth yn gwrando ac yn a gweithredu arnynt. Roedd y bobl yn cael eu trin â chynhesrwydd a pharch gan dîm o staff a oedd yn gwybod am ddewisiadau ac anghenion unigol y bobl ac a oedd yn cefnogi'r bobl mewn ffordd effeithiol. Mae'r bobl yn cael budd drwy lesiant gwell am eu bod yn gallu gwneud pethau sy'n bwysig iddynt, ac am fod eu harferion, eu hunaniaeth a'u dewisiadau unigol yn cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod.

Mae'r bobl yn cael cymorth i wella eu hiechyd corfforol a meddyliol a'u llesiant emosiynol. Roedd y ffaith ei fod yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol meddygol ac iechyd yn gryfder allweddol gan y gwasanaeth. Roedd y tîm o staff yn cael eu cefnogi'n dda ac roeddent yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod ac adolygu materion gyda'r rheolwyr, a oedd yn berthnasol i iechyd a chymorth cadarnhaol y bobl roeddent yn eu cefnogi. Roedd gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol systemau a phrosesau ar waith i adolygu ansawdd a nodi meysydd lle y byddai newidiadau'n fuddiol Roedd yr amgylchedd yn lân, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Roedd y gwasanaeth yn gofyn am adborth gan y bobl sy'n ei defnyddio, eu cynrychiolwyr, staff a rhanddeiliaid yn rheolaidd, a defnyddiwyd hyn i wella'r canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael budd o lesiant gwell gan wasanaeth lle maent yn cael cymorth gofalgar gan dîm sy'n cydweithio er mwyn diogelu'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer gofal y bobl.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu'n dda rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Roedd yr amgylchedd yn ddiogel ac yn galluogi'r bobl i ddefnyddio pob ardal gymunedol, gan gynnwys yr ardal awyr agored, yn ddiogel. Gallai'r bobl fynd a dod fel y mynnont os oeddent yn gallu gwneud hynny. Roedd y systemau diogelwch tân yn gadarn. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol i'r bobl, y staff a'r rheolwyr i ymgymryd ag ymarferion gwagio'r adeilad adeg tân, a fyddai'n rhoi profiad gwerthfawr iddynt i lywio gweithdrefnau diogelwch ar gyfer y dyfodol mewn achos o argyfwng tân gwirioneddol. Roedd y staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod materion pwysig gyda'r rheolwyr, a oedd yn ymwneud â'r bobl roeddent yn eu cefnogi. Caiff llesiant y bobl ei gyfoethogi gan wasanaeth sy'n darparu gofal a chymorth ymatebol a diogel.

## 2. Gofal a Chymorth

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth ar yr adeg gywir, yn y ffordd y maent yn dymuno ei gael. Gwnaethom edrych ar ffeiliau gofal pedwar person sy'n byw yn y gwasanaeth. Roedd canlyniadau unigol wedi'u nodi ac roedd diddordebau a hobïau a'r hyn a oedd yn bwysig i'r bobl yn cael eu cynnwys yn eu cofnodion gofal. Er ein bod wedi gweld bod y canlyniadau wedi'u nodi'n effeithiol, nid oeddem yn gallu gweld sut roedd y rhain yn cael eu mesur a'u hasesu er mwyn dangos addasrwydd ac effeithiolrwydd y dulliau gofal. Gwnaethom drafod hyn â'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr, ac roedd hyn eisoes wedi'i nodi fel maes i'w wella. Gwnaethom gytuno, gan argymell y dylid datblygu gweithdrefnau a'u rhoi ar waith er mwyn galluogi'r bobl, y staff a rhanddeiliaid i fesur eu cynnydd a'u llesiant yn effeithiol yn erbyn eu canlyniadau unigol. Gwelsom fod y cynlluniau gofal a'r cynlluniau rheoli risg yn cefnogi anghenion unigol ac y cânt eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd ac yn unol â newidiadau. Gwnaethom ddarllen gwaith papur o'r adolygiadau gofal blynyddol, a oedd ar gael i bawb. Roedd y rhain yn cynnwys y person a'i deulu neu gynrychiolwyr i edrych ar yr hyn sy'n dal i fod yn berthnasol ac ystyried effeithiolrwydd cynllun cyfredol y person gydag aelod o'r staff. Mae'r bobl yn cael budd drwy lesiant gwell gan wasanaeth sy'n deall y bobl y maent yn gofalu amdanynt fel unigolion, sydd ag anghenion a dewisiadau sy'n newid yn barhaus.

Mae'r bobl yn hapus ac yn cael gofal da gan dîm o staff sy'n meithrin cydberthnasau cadarnhaol ac sy'n ymwybodol o anghenion y bobl. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn ymgysylltu ac yn rhoi gofal i'r bobl. Gwelsom nad oeddent yn brysio wrth ddarparu'r gofal a'u bod yn ddiffwdan wrth wneud hynny. Roedd aelodau o'r staff yn sicrhau y caiff y gofal ei ddarparu mewn ffordd a oedd yn addas i bobl unigolyn. Roedd awyrgylch clòs a gofalgar o gwmpas y bwrdd brecwast ac roedd y bobl yn gallu gwneud penderfyniadau am eu diwrnod. Gwelsom y bobl yn chwarae â gêm o gardiau wedi'i drefnu. Yn anffodus, roedd y teledu wedi'i adael ymlaen, ac roedd hi'n amlwg bod o leiaf un person yn ei gweld hi'n anodd clywed neu gael ei glywed oherwydd hynny. Roedd y bobl nad oeddent am ymuno yn gallu gwylio ac roedd hi'n amlwg, o weld iaith corff cadarnhaol megis gwenu a chwerthin, bod y rhai a oedd yn cymryd rhan a'r rhai a oedd yn gwylio yn mwynhau. Daeth un aelod arall o'r staff draw tua diwedd y gweithgaredd a diffodd y teledu, ar ôl nodi nad oedd neb yn ei wylio mewn gwirionedd.  Gwnaethom grybwyll hyn i'r rheolwr a gwnaethom argymell y dylai'r staff sy'n cynnal y gweithgareddau fod yn gwbl ystyriol o faterion amgylcheddol, a allai amharu ar allu'r bobl i gymryd rhan a chytunodd y rheolwr. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn y cartref, dywedodd un person; "*This is the best place I have ever lived, I am happy and feel at home*." Nododd perthynas a oedd yn ymweld; "*There is not one thing I could find fault with, the food is amazing, my* [relative] *is well cared for and is able to have a bath and their hair done regularly, it has taken away a lot of pressure knowing they*

*are safe*”. Mae'r bobl yn cael budd cadarnhaol o wasanaeth lle mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn gwerthfawrogi'r bobl fel unigolion.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fod mor iach a gweithgar â phosibl. Gwelsom y bobl yn defnyddio pob ardal gymunedol yn y cartref. Roedd y cynllun yn hybu annibyniaeth, gan olygu bod y bobl yn gallu symud o amgylch yn annibynnol. Roedd y bobl yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau bywyd bob dydd, os oeddent yn dewis gwneud hynny a gwelsom fod y bobl yn gallu cymryd risgiau cadarnhaol megis ymweliadau annibynnol â'r gymuned ac roedd y rhain yn cael eu hasesu a'u rheoli'n effeithiol. Roedd y nodiadau dyddiol yn cynnwys tystiolaeth eglur o gydweithio ac argymhellion gan weithwyr iechyd a meddygol proffesiynol ac roedd y rhain yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gofal y bobl. Gwnaethom arsylwi ar rownd rhoi meddyginiaeth a gwnaethom nodi bod rhai materion y dylid eu hadolygu a'u gwella. Roedd y rownd rhoi meddyginiaeth yn cael ei chynnal yn ystod adeg brysur amser te yn yr ystafell fwyta. Roedd yr allweddi'n cael eu gadael yn y troli ac nid oedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael gerllaw er mwyn i'r aelod o'r staff olchi ei ddwylo rhwng y tasgau. Gwnaethom drafod y materion hyn gyda'r rheolwr, ac er ein bod wedi nodi bod yr arferion rhoi meddyginiaeth yn ddiogel ar y cyfan, gwnaethom argymell y dylai'r rheolwr adolygu addasrwydd cynnal y rownd rhoi meddyginiaeth yn yr ardal fwyta yn ystod adeg brysur. Yn dilyn yr arolygiad, cawsom e-bost oddi wrth y rheolwr a oedd yn rhoi gwybod i ni eu bod yn ystyried trefniadau amgen ar gyfer y rownd rhoi meddyginiaeth hon. Roedd y cofnodion meddyginiaeth a welsom yn gyflawn heb unrhyw fylchau ac roedd y bobl yn gallu rheoli eu meddyginiaeth eu hunain, os oedd yn well ganddynt wneud hynny a'u bod wedi cwblhau asesiad risg a'u hadolygu i sicrhau eu bod yn ddiogel i wneud hynny. Gwelsom fod meddyginiaeth y bobl yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a bod yr aelodau o'r staff sy'n gyfrifol am roi meddyginiaeth yn cael hyfforddiant a'u goruchwylio er mwyn asesu eu cymhwysedd ymhellach. Gall y bobl ddisgwyl gwasanaeth sy'n darparu cymorth ac ymyriadau gan dîm medrus o staff, sy'n addas ar gyfer eu hanghenion gofal unigol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Ein canfyddiadau

Mae'r llety'n diwallu anghenion y bobl, yn eu cadw'n ddiogel ac yn cefnogi llesiant cadarnhaol. Roedd ardaloedd y gwnaethom edrych arnynt yn y cartref yn lân, mewn cyflwr da ac yn cynnwys dodrefn mewn cyflwr da. Roedd nifer o ardaloedd cymunedol ar gael i'r bobl gymdeithasu a gwneud penderfyniadau ynghylch ymhle a gyda phwy roeddent am dreulio eu hamser. Roedd yr uned ailalluogi, lle gallai pobl fyw yno yn annibynnol, yn rhoi cymorth i'r bobl am gyfnodau byrrach a'u cefnogi i ddychwelyd yn ôl i fyw yn y gymuned. Gwelsom fod y drws ffrynt yn cael ei gadw ar glo ond roedd y bobl a oedd yn gallu gwneud hynny yn rhydd i fynd a dod fel y mynnont. Pan gyrhaeddom, dywedodd un aelod o'r staff wrthym nad oeddent yn disgwyl ymarfer tân ac y dylem adael y safle pa bai'r larwm yn canu. Mae cynllun rheoli risg legionella a gwybodaeth am asbestos ar gael i ymwelwyr a dogfen sefydlu er gwybodaeth i'r ymwelwyr, sy'n cefnogi diogelwch pawb.

Gwnaethom edrych ar gofnodion diogelwch tân a gwelsom fod y cyfarpar tân yn cael ei brofi'n ddyddiol ac roedd unrhyw broblemau a nodwyd yn cael eu datrys yn gyflym. Gwnaethom edrych ar yr asesiad risg tân a gwelsom ei fod yn cael ei gynnal bob blwyddyn. Roedd yr asesiad risg yn argymell y dylid cynnal ymarferion tân bob mis. Gwnaethom ofyn i'r rheolwr pryd roedd y tro diwethaf y cynhaliwyd ymarferion gwagio'r adeilad adeg tân. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd y gwasanaeth yn cynnal ymarferion gwagio'r adeilad adeg tân, ond eu bod yn trafod sefyllfaoedd tân amrywiol â'r staff. Gwnaethom edrych ar ddogfen ganllaw bellach gan yr awdurdod tân; roedd hyn hefyd yn nodi y dylid cynnal ymarferion tân. Er ein bod yn cydnabod eu bod wedi trafod sefyllfaoedd â'r staff a bod diogelwch tân y cartref yn gadarn, ni all hyn gymryd lle'r wybodaeth werthfawr a fydd yn cael ei chasglu o gynnal ymarferion gwagio'r adeilad adeg tân yn rheolaidd mewn modd a reolir. Felly, rydym yn argymell y dylid cynnal ymarferion gwagio'r adeilad adeg tân sy'n cynnwys y staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref yn rheolaidd a bydd canlyniad yr ymarferion hyn yn helpu i lywio polisi, hyfforddiant a chynlluniau gwagio'r adeilad adeg tân unigolion. Roedd gan y bobl gynlluniau gwagio'r adeilad adeg tân eu hunain, a oedd yn nodi'r cymorth y gallai fod ei angen arnynt i adael yr adeilad adeg tân. Roedd archwiliadau tân mewnol wedi cael eu cwblhau, a oedd wedi'u cadarnhau ymhellach gan archwiliad gan weithiwr proffesiynol allanol. Roedd y staff a oedd yn gweithio yn ystod y nos yn cael cyfle i fynychu hyfforddiant diogelwch tân a phanel tân bob mis ac roedd y drysau tân a'r llwybrau gadael wedi'u nodi'n glir. Mae'r bobl yn cael budd o amgylchedd sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol a'i gynnal a'i gadw'n dda, gyda systemau a gweithdrefnau ar waith i'w cadw'n ddiogel.

## 4. Arwain a Rheoli

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn cael budd o waith llywodraethu sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac adolygu. Gwnaethom edrych ar yr adolygiad mwyaf diweddar o ansawdd y gofal gan yr Unigolyn Cyfrifol. Roedd hyn yn tynnu sylw at brofiadau'r bobl yn erbyn canlyniadau llesiant cenedlaethol a oedd yn cynnwys y bobl sy'n byw yn y cartref, eu perthnasau a'r staff. Aethpwyd i'r afael â meysydd o bryder enbyd a chasglwyd mwy o wybodaeth er mwyn dilysu'r canfyddiadau. Gwnaethom siarad â'r rheolwr a gwelsom ei fod yn wybodus ac yn gymwys yn ei rôl. Roedd yn amlwg ei fod yn adnabod y bobl, y staff a'r gwasanaeth yn dda iawn. Gwnaethom edrych ar ffeiliau dau aelod o'r staff a gwelsom fanylion a thystysgrifau yn ymwneud â chymwysterau perthnasol y staff a'u hyfforddiant yn ogystal â chopïau o'u sesiynau goruchwylio a'u harfarniadau. Gwnaethom nodi nad oedd sesiynau goruchwylio'r staff yn cael eu cynnal bob chwarter, ac er bod y sesiynau goruchwylio yn rheolaidd, roedd rhai ohonynt y tu allan i'r amserlen hon. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr a dywedodd wrthym y gallai'r staff gael cyfarfodydd bob mis a chyfarfodydd pellach â'r Unigolyn Cyfrifol. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai sesiynau goruchwylio un i un gael eu cynnal gyda'r staff bob 12 wythnos, yn unol â'r rheoliadau presennol. Roedd y cynnwys goruchwylio y gwnaethom edrych arno yn gadarn ac yn berthnasol i faterion a oedd yn peri pryder i'r aelod o staff, ei ddatblygiad, a'i gynnydd. Mae'r bobl yn cael budd o wasanaeth sy'n gallu addasu i wella a newid ac yn gwasanaethu i wella canlyniadau i'r bobl, y staff a'r rhanddeiliaid.

Mae'r negeseuon rheoli clir a chyson gan y rheolwyr yn sicrhau bod y staff a'r bobl yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, a'u bod yn cael cyfarwyddyd cadarn. Gwnaethom edrych ar gofnodion o gyfarfodydd staff a gwelsom fod y materion a drafodwyd a'r wybodaeth a rannwyd yn berthnasol ac yn ddefnyddiol. Rhoddwyd eglurder o ran rolau, polisïau, hyfforddiant a rota'r staff. Roedd yr ieithwedd yn glir ac yn gadarnhaol ac roedd y staff hefyd yn cael adborth cadarnhaol, am fod y cofnodion hefyd yn cofnodi y dylai'r staff fod yn falch iawn ohonynt eu hunain am eu gwaith caled. Gwnaethom siarad â'r Unigolyn Cyfrifol am gefnogaeth i'r staff. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym ei fod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd lle roedd pob aelod o'r staff, heblaw am y rheolwyr, yn cael eu gwahodd. Mae hyn yn cynnig fforwm annibynnol i'r staff lle gallant siarad yn rhydd a chodi materion gyda pherson uwch. Gwnaethom holi am heriau penodol a dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol fod recriwtio yn her barhaus. Dywedwyd wrthym fod gwaith pellach o gasglu safbwyntiau aelodau newydd o'r staff wedi'i gwblhau i weld sut y gellid gwella'r broses recriwtio a'i gwneud hi'n haws i'r bobl ei dilyn. Gwelsom y bobl sy'n byw yn y cartref yn ymgysylltu â'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr mewn ffordd gadarnhaol. Roedd y staff yn gwrando ar y bobl ac roedd yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn rhoi amser i sgwrsio a derbyn adborth. Roedd y bobl yn adnabod enw'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol, sy'n dangos bod ganddynt bresenoldeb rheolaidd a gweithredol yn y cartref. Mae'r bobl yn cael budd pan gânt eu gwerthfawrogi, eu cefnogi, a phan gânt y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae'r bobl yn cael budd o wasanaeth sydd â goruchwyliaeth a gweledigaeth gref gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr. Gwnaethom edrych ar ddogfen y datganiad o ddiben, sy'n nodi sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu a'r trefniadau sydd ar waith i ddarparu'r gwasanaeth. Gwelsom fod gwybodaeth eglur yn cael ei darparu, ond nid oedd digon o fanylder yn y wybodaeth ac nid oedd yn ddigon perthnasol i'r gwasanaeth. Er enghraifft, mewn perthynas â'r modd mae'r defnydd o'r staff yn diwallu anghenion gofal a chymorth unigol. Hefyd, y modd y caiff penderfyniad ei wneud o ran lefelau staffio a sut mae'r lefelau hyn yn newid ynghyd ag anghenion y bobl yn y cartref. Hefyd, gwnaethom nodi bod 'tasgmon' wedi'i gynnwys fel aelod o'r staff nid yw'r datganiad o ddiben yn rhoi manylion pellach mewn perthynas â'i oriau gwaith felly gellid camddeall a'i ystyried yn aelod o'r staff llawn amser. Gwnaethom drafod y datganiad o ddiben gyda'r Unigolyn Cyfrifol a gwnaethom argymell eu bod yn ei adolygu a'i ddiweddaru gyda manylion penodol mewn perthynas â'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn diwallu anghenion y bobl y mae'n eu cefnogi. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym ei fod eisoes wedi cydnabod bod angen gwneud gwaith pellach ac y bydd yn mynd i'r afael â hyn a'i ddiweddaru yn y dyfodol agos. Gwnaethom ofyn sut y mae'r Unigolyn Cyfrifol yn asesu ac yn sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir yn y cartref. Dywedodd wrthym fod rheolwr tîm wedi'i gyflogi i gefnogi'r Unigolyn Cyfrifol yn ei rôl, sy'n cefnogi rheolwr y cartref yn uniongyrchol. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol fod hyn yn rhoi cymorth pellach i'r rheolwr ac yn galluogi'r rheolwr tîm i ymateb yn gadarnhaol i faterion a sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo yn ddidrafferth. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael cefnogaeth dda gan uwch-aelodau o'r tîm, ei ddirprwy,  yr uwch weithwyr gofal a'r tîm o staff. Gall y bobl fod yn hyderus bod gan y gwasanaeth drefniadau llywodraethu cadarn a'r sgiliau i adnabod a hwyluso gwelliant a newid cadarnhaol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dyma'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers iddo gael ei ailgofrestru'n ffurfiol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar 5 Hydref 2019.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y canlynol:

- Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig ddiweddaru'u datganiad o ddiben a chynnwys mwy o fanylder am yr hyn y gall y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ei ddisgwyl a sut y caiff y gwasanaeth ei gynnal.

- Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig sicrhau y gall y staff gael sesiynau goruchwylio unigol o leiaf bob chwarter.

- Dylai'r personau cofrestredig wneud gwelliannau i'r gweithdrefnau sydd ar waith i ddosbarthu meddyginiaeth.

- Dylai'r personau cofrestredig ddatblygu gweithdrefnau a'u rhoi ar waith er mwyn mesur a rheoli canlyniadau unigol y bobl yn effeithiol.

- Dylai'r personau cofrestredig gynnal ymarferion gwagio'r adeilad adeg tân yn rheolaidd.

- Dylai'r personau cofrestredig sicrhau bod aelodau o'r staff yn ystyriol o bryderon amgylcheddol wrth gynnal gweithgareddau er mwyn galluogi pawb i gymryd rhan os hoffent wneud hynny.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaethom ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gynnal arolygiad dirybudd llawn o'r gwasanaeth ar 13 Ionawr 2020 rhwng 09:10am a 18:30pm o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Casglwyd gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o'r ffynonellau canlynol:

- Gwnaethom siarad â phedwar person sy'n byw yn y cartref, un perthynas a oedd yn ymweld â'r cartref, dau weithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref, un aelod o'r staff a'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr.

- Defnyddiwyd y Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI 2). Mae'r adnodd hwn yn galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi er mwyn ein helpu i ddeall profiadau'r bobl na allant gyfathrebu â ni.

- Gwnaethom ddosbarthu holiaduron i'r gwasanaeth er mwyn rhoi cyfle i'r bobl, y perthnasau, y staff a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld yn roi adborth ar y gwasanaeth.

- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o gofnodion, gan gynnwys cynlluniau gofal a chymorth y bobl ac asesiadau risg, cofnodion y staff, cofnodion dyddiol, cofnodion hyfforddiant, cofnodion iechyd a diogelwch, polisïau a gweithdrefnau, archwiliadau mewnol, cofnodion cyfarfodydd;, yr adroddiad ar ansawdd y gofal a'r ddogfen datganiad o ddiben.
- Gwnaethom edrych ar ardaloedd cymunedol y cartref a'r ardal fwyta.
- Gwnaethom roi adborth ar ein canfyddiadau i'r rheolwr yn ystod yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr y Gwasanaeth** | **Cyngor Sir y Fflint** |
| **Rheolwr** | **Mae rheolwr penodedig sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **30** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.** |
| **Dyddiad yr ymweliad Arolygu hwn** | **13 Ionawr 2010** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/03/2020